# Strategaeth Caffael Cymdeithasol Gyfrifol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen 2022-2027

# Rhagair

Mae'r Cyngor yn gwario dros £110 miliwn y flwyddyn yn caffael ystod amrywiol o nwyddau, gwasanaethau a gwaith gan dros 2,900 o gyflenwyr, darparwyr gwasanaethau a chontractwyr. Mae’n gyfrifoldeb ar y Cyngor i reoli arian cyhoeddus yn gywir, i sicrhau y ceir gwerth am arian, a'i reoli yn y fath fodd y gellir cefnogi amcanion ehangach y Cyngor.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn datblygu Cynllun Sirol newydd ar gyfer y cyfnod 2022-2027 ac yn gosod blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod hwn.

Mae'r Cyngor yn wynebu nifer o heriau y mae cryn dystiolaeth ohonynt, yn cynnwys costau byw ac argyfyngau ynni, effaith barhaus pandemig Covid-19 ar ein cymunedau a'n busnesau, yr argyfyngau hinsawdd a natur sydd wedi'u datgan gan y Cyngor a'n hymateb i reoli cyfyngiadau cyllidebol parhaus ar adeg pan mae mwy o alw am wasanaethau.

I'r perwyl hwn mae wedi ymrwymo i gyflawni buddion cymunedol/gwerth cymdeithasol, gan gynnwys cyfleoedd gwaith a phrentisiaethau, a hyrwyddo “Arferion Gwaith Teg”.

Mae caffael yn cael ei gydnabod fel elfen hanfodol wrth weithredu'r Strategaeth hon, i alluogi’r Cyngor i gyflawni’r heriau hyn, ac mae’n amlinellu ein gweledigaeth a’n blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae’n esbonio sut y bydd y Cyngor yn parhau i gaffael mewn ffordd fydd yn cyfrannu at gyflawni’r heriau hyn.

Mae'n hanfodol ystyried hon yn strategaeth gorfforaethol sy'n galw ar yr holl rhanddeiliad i weithio gyda hi i'w chyflawni.

## Y Cyng. Susan Morgan – Aelod Cabinet Adnoddau



## Torfaen y Dyfodol – Cynllun Sirol i Bawb

Mae ymrwymiad y Cyngor i lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn cael ei adlewyrchu'n glir yn nogfen Torfaen y Dyfodol – Cynllun Sirol i Bawb.

Mae'r cynllun yn cynnwys 9 Amcan Llesiant

***1. Byddwn yn codi cyrhaeddiad addysgol, gan helpu pobl ifanc ac oedolion i gael y cymwysterau a'r sgiliau y mae eu hangen i fyw bywydau cadarnhaol***

***2. Byddwn yn annog ac yn hybu plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallan nhw ffynnu***

***3. Byddwn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb trwy ganolbwyntio ar weithgareddau adnabod ac atal sy'n cefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol a boddhaus***

***4. Byddwn yn gwneud Torfaen yn fwy cynaliadwy trwy gysylltu pobl a chymunedau, yn gymdeithasol, yn ddigidol ac yn gorfforol.***

***5. Byddwn yn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, yn ailgylchu mwy ac yn gwneud gwelliannau i'r amgylchedd lleol***

***6. Byddwn yn gwneud Torfaen yn lle gwych i fod mewn busnes trwy weithio gyda chyflogwyr lleol, annog busnesau newydd a gweithgareddau entrepreneuraidd***

***7. Byddwn yn hybu bywydau mwy iach yn Nhorfaen er mwyn gwella lles meddyliol a chorfforol.***

***8. Byddwn yn cefnogi ein diwylliant a threftadaeth leol ac yn gwneud Torfaen yn lle ffyniannus, diogel a deniadol i fyw ac i ymweld ag ef***

***9. Byddwn yn darparu gwasanaethau effeithlon sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ac sy'n adlewyrchu'r ffordd mae pobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno cael gwasanaethau***




Mae'r **Cynllun Sirol** yn cynnwys nifer o flaenoriaethau a lywiodd yr Amcanion Allweddol yn y Strategaeth hon, sef:

- Ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd a Natur
- Defnyddio ein pŵer prynu i gefnogi busnesau lleol, cynyddu hawliau gweithwyr a gwella safonau amgylcheddol.
- Ymrwymo i Fuddion Cymunedol a Gwerth Cymdeithasol i gefnogi'r gwaith o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a chodi cyrhaeddiad addysgol

## Cynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd a Natur


Ym mis Mehefin 2019 fe wnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ddatgan Argyfwng Newid Hinsawdd ac ymrwymodd i ddod yn Gyngor carbon sero net erbyn 2030. Mae'r Cyngor hefyd wedi datgan argyfwng natur ers mis Medi 2021 i gydnabod y bygythiad difrifol i ddirywiad bioamrywiaeth. Mae ein cynllun gweithredu yn nodi sut y byddwn yn gweithio tuag at ddod yn garbon niwtral erbyn 2030 a sut y byddwn yn diogelu a gwella adnoddau naturiol gwerthfawr Torfaen a'r fioamrywiaeth y maent yn ei chefnogi.

Ond er mwyn gwneud gwahaniaeth go iawn, mae hefyd angen i bawb yn Nhorfaen leihau ei hôl troed carbon a mynd ati i gefnogi natur.

# Pam Mae Caffael yn Bwysig

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn gyfrifol am ddarparu ystod o wasanaethau cyhoeddus statudol a dewisol sy'n eang ac amrywiol. Mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau'n uniongyrchol trwy ei weithlu ei hun, a thrwy sefydliadau preifat a thrydydd sector.

O ganlyniad, mae'r Cyngor yn gwario dros **£110 miliwn** y flwyddyn ar gaffael amrywiaeth eang o nwyddau, gwasanaethau a gwaith gan dros 2,800 o gyflenwyr a chontractwyr. Mae'r graff isod yn dangos y meysydd allweddol o ran ble y gwnaethom wario ein harian yn 2021/22.




'Caffael' yw'r "broses lle mae sefydliadau yn diwallu eu hanghenion o ran nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau. Gwneir hyn mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian am oes gyfan i greu buddion nid yn unig i'r sefydliad, ond hefyd i'r gymdeithas a'r economi. Gwneir hyn drwy effeithio cyn lleied â phosibl ar yr amgylchedd. Mae'n cynnwys nodi anghenion, ystyried opsiynau, y broses gaffael ei hun a rheoli ac adolygu'r contractau yn dilyn y broses.

*Procuring the Future* – Tasglu Caffael Cynaliadwy y DU 2006 a Datganiadau Polisi Caffael Cymru 2012 a 2015

Yn ogystal â rheoli arian cyhoeddus yn **gywir**, a dangos **gwerth am arian,** mae caffael yn cael ei ystyried fwyfwy fel cyfrwng allweddol ar gyfer cyflawni nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol mewn meysydd allweddol fel **datgarboneiddio**, **gwaith teg**, a **chymorth i fusnesau a chymunedau lleol**.

Felly, mae'r Strategaeth hon yn ymdrechu i egluro'r hyn y bydd y Cyngor yn ei wneud i barhau i wella'r ffordd y mae'n rheoli ei weithgarwch caffael i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau hyn.

# Llywio Ein Strategaeth

Mae nifer cynyddol o ofynion o ran deddfwriaeth a pholisi sy'n llywio ac yn dylanwadu ar y ffordd y mae'r Cyngor yn rheoli ei weithgarwch caffael. Cawsant eu hystyried wrth ddatblygu'r Strategaeth hon. Mae'r adran hon yn tynnu sylw at rhai o'r gofynion a'r blaenoriaethau allweddol cyffredin o ran deddfwriaeth a pholisi. Mae mwy o wybodaeth wedi ei chynnwys yn y Strategaeth hon.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)




Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn canolbwyntio ar wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yng Nghymru. Nod y Ddeddf yw helpu i greu Cymru yr ydym ni i gyd am fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol. Mae caffael yn un o'r saith maes corfforaethol ar gyfer creu newid yng nghanllawiau statudol y Ddeddf.

Er bod y Strategaeth hon wedi'i strwythuro ar sail saith Amcan Caffael allweddol, rydym yn dangos sut y mae pob amcan yn cyfrannu at bob un o'r Amcanion Lles Cenedlaethol. Byddwn yn defnyddio'r pum ffordd o weithio i ymwreiddio dulliau caffael cynaliadwy ar draws y Cyngor.




Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent Public Services Board

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod dyletswydd ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i baratoi cynllun asesu lles bob pum mlynedd. Dechreuodd y pum BGC ar wahân yn rhanbarth Gwent weithio i gynnal y broses asesu ac ymgysylltu ar y cyd ym mis Ionawr 2021. Fe wnaethant gytuno i lunio un asesiad ar gyfer Gwent gyfan, ac asesiadau lleol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol.

Yn debyg i'r ffordd y cafodd yr Asesiadau Llesiant diwethaf eu paratoi yn 2017, cafodd data ei gasglu o amrywiaeth o ffynonellau, yn cynnwys Data Cymru, arbenigwyr a'r cymunedau eu hunain, i gael darlun llawnach o sut mae llesiant yn edrych yn yr ardal. Cyfarfu swyddogion o fudiadau sy'n aelod o'r BGC yn rheolaidd i gytuno ar y ffordd orau i baratoi'r Asesiad. Adeiladwyd ar yr hyn a ddysgwyd o'r rownd olaf o asesiadau i sicrhau bod modd ei gynhyrchu erbyn y terfyn amser statudol. Sefydlwyd ffrydiau gwaith hefyd i ystyried yr elfen dadansoddi data a chyflwyno, y ddogfen Asesu, a'r ffordd orau ymgysylltu â'r cymunedau ac arbenigwyr i gyfleu'r canfyddiadau.

Cyhoeddwyd yr asesiad llesiant ar 5 Mai 2022 ac mae bellach yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu cynllun Llesiant Gwent a fydd yn cael ei gyhoeddi erbyn mis Mai 2023.

## Rheoliadau Contract Cyhoeddus a Diwygio Caffael


Mae caffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith gan y sector cyhoeddus yn cael ei lywodraethu gan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (RhCC 2015) sy'n seiliedig ar egwyddorion symudiad rhydd nwyddau, rhyddid i ymsefydlu a rhyddid i ddarparu gwasanaethau. Yn sylfaen i'r egwyddorion hyn mae gwerthoedd fel triniaeth gyfartal, peidio â gwahaniaethu, cyd-gydnabod, cymesuroldeb a thryloywder.

Mewn ymateb i'r DU yn gadael yr UE, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Bapur Gwyrdd: Trawsnewid Caffael Cyhoeddus (cyhoeddwyd Rhagfyr 2020) ac ym mis Mai 2022 cafodd y Bil Caffael ei gyflwyno i'r Senedd. Mae'r Bil, sydd eto i'w ddeddfu, yn cyflwyno trefn gaffael gyhoeddus newydd a, phan gaiff ei ddeddfu, bydd yn dirymu Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015. Mae'n annhebygol y bydd y drefn newydd yn dod i rym tan o leiaf diwedd 2023. Bydd hefyd yn ymgorffori'r egwyddorion caffael cyhoeddus mewn cyfraith: gwerth am arian, lles cyhoeddus, tryloywder, uniondeb, effeithlonrwydd, trin cyflenwyr yn deg a pheidio â gwahaniaethu.

## Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

Disgwylir i'r Bil ddod yn gyfraith yn 2023 ac mae'n cydnabod mai Caffael yw un o'r arfau pwysicaf sydd gennym i gefnogi'r gwaith o greu Cymru sy'n fwy cyfartal, mwy cynaliadwy a mwy ffyniannus. Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gaffael mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol trwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, fel y'i diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd angen i'r Cyngor:

- ystyried caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol wrth gaffael ar gyfer 'contractau rhagnodedig'.
- cynnwys cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol mewn contractau adeiladu mawr a chymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol mewn unrhyw gontractau gwasanaeth allanol.
- cyflawni dyletswyddau rheoli contractau i sicrhau bod canlyniadau sy'n gyfrifol yn gymdeithasol yn cael eu dilyn trwy gadwyni cyflenwi.
- cyhoeddi Cofrestr Contractau a Blaengynllun Contractau.
- paratoi Adroddiad Caffael blynyddol.




## Datganiad Polisi Caffael Cymru (DPSC)

Mae'r trydydd DPSC a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021 yn nodi'r deg egwyddor y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru eu dilyn ar gyfer caffael llesiant i Gymru yn seiliedig ar Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a pholisïau allweddol Llywodraeth Cymru. Bydd y Mesur Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (MPGaChC) yn mynnu bod glynu at y DPSC yn ofyniad statudol.




Yn 2021 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru statws carbon sero-net 2030 sy'n datgan

*'Erbyn 2030, bydd dewisiadau di-garbon yn rhan o'r drefn arferol, byddant wedi ymwreiddio yn ein diwylliant ac yn cael eu hunan-reoleiddio ar draws sector cyhoeddus Cymru.'*

## Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gadw at Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (DCSC) drwy ei holl swyddogaethau a gwasanaethau drwy:


- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth
- Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal
- Meithrin cysylltiadau da

Mae cydraddoldeb yn cael ei ystyried drwyddi draw yn ein cylch caffael. Rydym yn sicrhau bod y DCSC yn cael ei gymhwyso i bob contract waeth beth yw ei werth. Bydd hyn yn ein helpu i fodloni gofynion Dyletswydd Gaffael Penodol y Ddeddf. Lle bo hynny'n berthnasol, byddwn yn gweithio gyda chontractwyr i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y DCSC.

# Sicrhau gwerth drwy gydol y Cylch Caffael

Mae fwyfwy o ddisgwyl ar y rôl y gall caffael ei chwarae wrth fynd i'r afael â rhai o'r heriau mwyaf sy'n wynebu ein Cymunedau a'r Blaned yn gyffredinol.

**Er mwyn cyflawni hyn, mae'n hanfodol bod gwerth yn cael ei ystyried ym mhob cam o'r cylch caffael. Mae hyn yn golygu bod gan yr holl staff sy'n ymwneud â manylu, cyrchu, dyfarnu a rheoli contractau rôl allweddol i'w chwarae. Mae'n arbennig o bwysig bod digon o sylw ac amser yn cael eu buddsoddi yn y camau cynllunio a rheoli contractau.**




Wrth ystyried cyflawni gwerth, mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng y prif amcanion / dibenion / buddion a ddisgwylir wrth ymrwymo arian cyhoeddus i brosiectau neu gontractau, ac amcanion eilaidd gwerth ychwanegol y gellir hefyd eu cyflawni

Mae enghreifftiau o'r ffordd y gellir cynhyrchu / darparu gwerth drwy'r cylch caffael yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Annog atebion arloesol gan y farchnad drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na mewnbynnau ac allbynnau
- Datblygu manylebau sy'n gofyn am ddulliau sy'n defnyddio deunyddiau neu ddulliau adeiladu sy'n defnyddio llai o garbon
- Annog dulliau caffael cylchol a diwastraff.
- Strwythuro prosesau tendro a dogfennau i wella hygyrchedd i fusnesau llai
- Ystyried cost oes gyfan wrth ddyfarnu contractau
- Defnyddio cymalau cytundebol i sicrhau bod ymrwymiadau gwaith teg yn cael eu cyflawni
- Sicrhau bod ymrwymiadau buddiant cymunedol a gwerth cymdeithasol gan gontractwyr yn cael eu targedu i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau ehangach y Cyngor
- Rheoli contractau'n effeithiol i sicrhau bod gofynion ac ymrwymiadau gwerth ychwanegol yn cael eu cyflawni.

## Amcanion Caffael Allweddol

Er mwyn sicrhau bod ein Strategaeth yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau a amlinellwyd eisoes uchod, nodwyd yr Amcanion Caffael a ganlyn.

- Cyfrannu at y nod o ddod yn Gyngor Carbon Niwtral erbyn 2030.
- Sicrhau bod gwariant caffael yn fwy hygyrch i fusnesau lleol a'r trydydd sector.
- Gwella arferion Gwaith Teg, a Diogelu a fabwysiadwyd gan gyflenwyr.
- Cynyddu buddion cymunedol a gwerth cymdeithasol a ddarperir gan gyflenwyr.
- Sicrhau gwerth am arian a rheoli'r galw.
- Sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol a llywodraethu cadarn a thryloyw.
- Hyrwyddo atebion arloesol ac arferion gorau.

Mae adran nesaf y strategaeth hon yn ymhelaethu ar yr amcanion caffael hyn. Rhoddir trosolwg cryno o'r sefyllfa bresennol, gan nodi'r amcanion allweddol a'r themâu allweddol o ran yr hyn y byddwn yn ei wneud a sut y byddwn yn mesur cyflawniad. Bydd y camau gweithredu manwl yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Cyflawni Strategaeth Gaffael Cymdeithasol Gyfrifol sy'n cyd-fynd â'r strategaeth.

Sylwch y dylid defnyddio'r term **cyflenwr** yn y strategaeth hon wrth gyfeirio at unrhyw sefydliad sy'n cyflenwi nwyddau, gwasanaethau a / neu waith i'r Cyngor, felly'n cynrychioli cyflenwyr, contractwyr a darparwyr o'r sector preifat, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus.

# Cyfrannu at weledigaeth y Cyngor i fod yn Gyngor Carbon-niwtral erbyn 2030




Ym mis Mehefin 2019 cymeradwyodd y Cyngor gynnig i ddatgan argyfwng hinsawdd, gan gydnabod y bygythiad gwirioneddol y mae newid yn yr hinsawdd yn ei achosi i genedlaethau, nawr ac yn y dyfodol. Trwy ei Gynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd a Natur mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fod yn Gyngor Carbon niwtral erbyn 2030 ac arwain, cefnogi, hwyluso ac annog ein cymunedau, ein trigolion a'n busnesau fel y gall Torfaen ddod yn garbon niwtral erbyn 2050. Er bod caffael yn chwarae rôl o ran cefnogi'r gwaith o leihau elfennau o allyriadau Cwmpas 1 a 2, y mae gan y sefydliad elfen o ddylanwad uniongyrchol drostynt (er enghraifft, allyriadau sy'n deillio o'u hystâd eu hunain / gweithrediadau mewnol – gweithwyr yn cymudo / teithio am resymau busnes) mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar yr elfen nwyddau a brynir, gwasanaethau a gwaith o allyriadau Cwmpas 3.

Gan ddefnyddio Fframwaith Adrodd Carbon Llywodraeth Cymru daw mwy na 70% o'n hôl-troed carbon o'r allyriadau anuniongyrchol sy'n deillio o'r cyflenwadau, y gwasanaethau a'r gwaith y mae'r Cyngor yn eu prynu i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau'r Cyngor.





Figure 2: Summary of Torfaen Council's emissions during 2019/20

Felly, bydd angen i'r Gyfarwyddiaeth ailystyried a herio'r hyn y maen ei brynu a sut y mae'n mynd i gyflawni hyn, os ydym am leihau ein hôl troed carbon.

Yr her a gyflwynir gan allyriadau Cwmpas 3 yw, er eu bod yn deillio o alw'r sefydliad am nwyddau, gwasanaethau neu waith, eu bod yn digwydd mewn gweithgareddau cadwyn gyflenwi nad yw'r Cyngor yn berchen arnynt nac yn eu rheoli'n uniongyrchol.

Fodd bynnag, mae ein cydberthnasau cytundebol yn cynnig cyfleoedd i ysgogi lleihau allyriadau drwy ein prosesau caffael (strategaethau caffael – sut rydym yn ymdrin â'r farchnad; sut rydym yn pennu gofynion; gwerthuso tendrau a gosod DPA) a sicrhau bod y canlyniadau a ragwelir yn cael eu cyflawni drwy ein perthnasoedd rheoli contract drwy weithio gyda'n partneriaid yn y gadwyn gyflenwi a mynd ymhellach drwy gymell arloesedd / gwelliant parhaus dros gyfnod y contract.

# Cyfrannu at weledigaeth y Cyngor i fod yn Gyngor Carbon-niwtral erbyn 2030




## Nod (lle rydyn ni eisiau bod)

- Mae'r Cyngor yn deall effaith carbon y cyflenwadau, y gwasanaethau a'r gwaith y mae'n eu prynu ac mae’n cymryd camau gweithredol i leihau ein hôl-troed carbon

- Mae'r Cyngor yn defnyddio'r cylch caffael i fanteisio'n rheolaidd ar gyfleoedd i leihau effaith carbon

## Byddwn yn cyflawni hyn drwy (sut y byddwn yn cyrraedd yno)

- Deall ôl-troed carbon nwyddau, gwasanaethau a gwaith a brynwyd gan y Cyngor i sicrhau bod ein gweithgarwch lleihau carbon yn cael ei dargedu lle gall gael yr effaith fwyaf
- Gweithio gyda'n haelodau etholedig, staff, partneriaid a chontractwyr i sicrhau bod lleihau carbon yn fater sydd wedi ei ymwreiddio’n llawn yn ein prosesau gwneud penderfyniadau drwy gydol y cylch caffael a bod atebion carbon isel yn cael eu rhoi ar waith lle bo hynny’n briodol
- Cydweithio â sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a’r trydydd sector a dysgu ganddynt, i annog a sbarduno’r gwaith o drawsnewid i atebion carbon isel.

## Byddwn yn dangos ein bod yn cyflawni drwy

- Adrodd ar gyfraniad caffael at leihau carbon trwy Gynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd y Cyngor.

# Gwneud gwariant caffael yn fwy hygyrch i fusnesau lleol a'r trydydd sector

A Prosperous Wales

A Wales of Cohesive Communities




Mae Cyngor bwrdeistref Sirol Torfaen yn cydnabod gwerth economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol gwario arian gyda busnesau lleol, yn enwedig mentrau bach a micro, unigolion a’r trydydd sector.

Mae gan y Cynllun Sirol ffocws clir ar werth cefnogi a thyfu’r Economi Sylfaenol a chadw mwy o’r arian yr ydym yn ei wario yn lleol ac mewn modd moesegol.

Mae Nodyn Polisi Caffael Cymru (NPCC) 07/21 yn tynnu sylw at egwyddorion Agor Drysau: Y Siarter ar gyfer Caffael sy'n Gyfeillgar i Fusnesau Bach a Chanolig' ac yn adeiladu arno.  Mae’r WPPN yn nodi’r hyn y gall Sector Cyhoeddus Cymru a Busnesau Bach a Chanolig (BBaCh) ei wneud i sicrhau bod proses gaffael sy’n ystyriol o BBaCh yn cael ei mabwysiadu a’i rhoi ar waith.  Yn ogystal, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn canolbwyntio’n benodol ar rôl Cwmnïau Gwerth Cymdeithasol yn cefnogi’r gwaith o gyflawni gwasanaethau’r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn mesur y gwariant 'lleol' ar gyfer Torfaen, Gwent, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Chymru.

Ein gwariant Lleol/Rhanbarthol/Cenedlaethol yn y flwyddyn ariannol 2021/22 oedd:

- Torfaen 25%
- Gwent 41%
- Prifddinas-Ranbarth Caerdydd 53%
- Cymru 55%

Am yr un cyfnod ein gwariant gyda Mentrau Bach a Chanolig oedd 57%

# Gwneud gwariant caffael yn fwy hygyrch i fusnesau lleol a'r trydydd sector

A Prosperous Wales

A Wales of Cohesive Communities

## Amcan (lle rydyn ni'n dymuno bod)

- Bydd busnesau bach a sefydliadau trydydd sector yn
  - cael gweld contractau'r Cyngor a chael cyfle i gynnig amdanynt
  - ei chael hi'n hawdd gwneud cais am gyfleoedd i weithio gyda'r Cyngor
  - cael cyfleoedd i gyflenwi'r Cyngor drwy gyflenwyr Haen 1

## Byddwn yn gwneud hyd drwy (sut y byddwn yn cyrraedd yno)

- Cynyddu cyfleoedd busnes sy'n cael eu gweld gan fusnesau bach a'r trydydd sector, a chyfleoedd i gyflenwi'r Cyngor
- Ei gwneud yn haws i fusnesau bach a'r trydydd sector wneud busnes gyda'r Cyngor
- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu gallu a chapasiti busnesau bach a'r trydydd sector i sicrhau contractau sector cyhoeddus

## Byddwn yn dangos bod hyn yn cael ei gyflawni drwy

- Cynyddu gwerth gwariant gyda busnesau lleol a'r trydydd sector.
- Cynyddu nifer y busnesau lleol a sefydliadau trydydd sector sy'n gwneud cynnig ac yn ennill cyfleoedd gyda'r Cyngor.

# Gwella arferion Gwaith Teg a Diogelu sy’n cael eu mabwysiadu gan gyflenwyr

A Healthier Wales

A Wales of Cohesive Communities

A More Equal Wales




Ym mis Tachwedd 2021, ymrwymodd y Cyngor i’r Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi sy’n ceisio mynd i’r afael â chaethwasiaeth fodern, cam-drin hawliau dynol, cosbrestru, hunangyflogaeth ffug, defnyddio cynlluniau ymbarél yn annheg a chontractau dim oriau.  Bydd cynllun gweithredu a gafodd ei ddatblygu i fynd i'r afael â'r ymrwymiadau yn y cod yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru.

Yn 2023 disgwylir i’r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus ddod yn gyfraith. Diben y Bil fel a nodir, yw creu fframwaith i wella llesiant pobl yng Nghymru wrth wella gwasanaethau cyhoeddus drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a chaffael cyhoeddus sy’n gymdeithasol gyfrifol, gan gynnwys sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol. Mae elfennau o’r Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi yn debygol o gael eu gwneud yn orfodol a’u hymgorffori mewn canllawiau statudol.

Yn rhan o’r agenda hon, byddwn hefyd yn ceisio datblygu ein dull i gynnwys gwaith Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol.  Mae'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol yn grŵp partneriaeth gymdeithasol tridarn sydd wedi ymrwymo i ymgorffori Gwaith Teg a gwella telerau ac amodau i'r rhai sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol. Mae'r fforwm yn bodoli i ganiatáu i gynrychiolwyr undebau llafur, cyflogwyr, rhanddeiliaid a Llywodraeth Cymru weithio gyda'i gilydd i ddylanwadu ar flaenoriaethau a pholisïau cenedlaethol sy’n gysylltiedig â gwaith teg yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Bydd y grŵp yn anelu at gyfuno uchelgais â phragmatiaeth i greu newid sydd yn ymarferol ac yn weithredadwy.

Mae masnach deg yn cefnogi ffermwyr a gweithwyr mewn gwledydd sy'n datblygu trwy brisiau gwell, amodau gwaith gweddus a bargen deg.

Mae diogelu pobl sy'n agored i niwed yn un o brif flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor. Mae Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor yn datgan yn glir bod diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o niwed yn gyfrifoldeb ar bawb.

# Gwella arferion Gwaith Teg a Diogelu sy'n cael eu mabwysiadu gan gyflenwyr

A Healthier Wales

A Wales of Cohesive Communities

A More Equal Wales

## Amcan (lle rydyn ni'n dymuno bod)

- Defnyddir caffael i ddylanwadu ar waith teg cadarnhaol a'i gynyddu, a chanlyniadau sy'n gymdeithasol gyfrifol sydd o fudd i'r sir trwy fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb.

- Mae'r Cyngor a'i gyflenwyr a chontractwyr yn mynd ati i ddiogelu a hyrwyddo hawliau plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed

## Byddwn yn gwneud hyn drwy (sut y byddwn yn cyrraedd yno)

- Sicrhau bod y sawl sy'n tendro a chyflenwi yn ymwybodol o ymrwymiad y Cyngor i weithio gyda sefydliadau a fydd yn cefnogi'r Cyngor i gyflawni dyletswyddau cydraddoldeb, gwaith teg a diogelu
- Defnyddio ein proses dendro a chontractau i sicrhau bod ein cyflenwyr wedi ymrwymo i gefnogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau cydraddoldeb, gwaith teg a diogelu
- Gweithio gyda'n cyflenwyr i sicrhau eu bod yn hyrwyddo arferion gwaith teg a diogelu o fewn eu sefydliad a'u cadwyn gyflenwi

## Byddwn yn dangos bod hyn yn cael ei gyflawni drwy

- Cyflawni yn erbyn y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus ac egwyddorion y Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi

# Cynyddu buddion cymunedol a gwerth cymdeithasol gan gyflenwyr

A Prosperous Wales
A Wales of Cohesive Communities
A More Equal Wales

Bwriad ymrwymo i Fuddion Cymunedol a Gwerth Cymdeithasol yw cyflawni canlyniadau ychwanegol o ran gwerth economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol wrth ddyfarnu contractau ar gyfer gwaith, gwasanaethau neu gyflenwadau.

Bydd Buddion i'r Gymuned fel arfer yn canolbwyntio ar

- Hyfforddi a recriwtio grwpiau difreintiedig a phobl economaidd anweithgar
- Mentrau cadwyn gyflenwi a Gweithio gyda'r 3ydd Sector
- Mentrau addysgol
- Mentrau Cymunedol a Diwylliannol
- Mentrau amgylcheddol

Mae'r Cyngor wedi cynnwys gofynion Buddion Cymunedol Llywodraeth Cymru yn rheolaidd mewn contractau adeiladu a chynnal a chadw mawr dros y blynyddoedd diwethaf.

Fodd bynnag, er gwaethaf rhai llwyddiannau, nid yw Buddion Cymunedol wedi'u gwreiddio ymhob categori ac mae rheoli ac adrodd ar gyflenwi wedi profi i fod yn anodd ei gyflawni.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod hwn yn faes y gall ei gwella er mwyn rhoi cyfleoedd i gefnogi cymunedau ac unigolion, a bydd y fenter caffael ar y cyd gyda Chyngor Caerdydd yn rhoi mwy o ffocws ar fuddion cymunedol a gwerth cymdeithasol.



# Cynyddu buddion cymunedol a gwerth cymdeithasol a ddarperir gan gyflenwyr




## Amcan (lle rydyn ni’n dymuno bod)

- Mae Buddion Cymunedol a chyfleoedd Gwerth Cymdeithasol yn cael eu defnyddio i’r eithaf, a’i halinio i gefnogi blaenoriaethau’r Cyngor a’r cymunedau y mae’n eu gwasanaethu
- Mae Buddion Cymunedol a Gwerth Cymdeithasol yn cael eu hymgorffori'n rheolaidd mewn tendrau ar draws pob categori gwariant
- Cyflawnir ymrwymiadau Buddion Cymunedol a Gwerth Cymdeithasol ac mae tystiolaeth o'r budd i'r unigolyn a/neu'r gymuned

## Byddwn yn gwneud hyn drwy (sut y byddwn yn cyrraedd yno)


- Mabwysiadu dull cyson o sicrhau a rheoli ymrwymiadau Buddion Cymunedol a Gwerth Cymdeithasol sy'n ddealladwy i'r Cyngor a'i gontractwyr
- Cydlynu'r ymagwedd Buddion Cymunedol a Gwerth Cymdeithasol drwy weithio gyda gwasanaethau'r Cyngor, ein cymunedau, partneriaid a chontractwyr i lywio ein blaenoriaethau a hwyluso'r gwaith o'u cyflawni
- Adrodd ar gyflawniadau, hyrwyddo llwyddiant a rhannu’r dysgu

## Byddwn yn dangos bod hyn yn cael ei gyflawni drwy

- Cynyddu nifer y tendrau sy'n gofyn am ymrwymiadau Buddion Cymunedol a Gwerth Cymdeithasol ychwanegol
- Cynyddu niferoedd a gwerth Buddion Cymunedol a Gwerth Cymdeithasol yr ymrwymwyd iddynt, ac a gyflawnwyd drwy gontractau'r Cyngor

# Sicrhau gwerth am arian a rheoli'r galw

Mae'r Cyngor yn gwario tua £110 miliwn bob blwyddyn ar gaffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddangos sut mae'n sicrhau 'Gwerth am Arian' a 'Gwerth Gorau'.




Gwerth am Arian yw'r cyfuniad gorau posibl o gostau bywyd cyfan o ran nid yn unig arbedion effeithlonrwydd a chanlyniadau o ansawdd da i'r sefydliad, ond hefyd budd i gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd, nawr ac yn y dyfodol"

Un ffordd y gall y Cyngor ddangos Gwerth am Arian yw trwy ddyfarnu contractau trwy gystadleuaeth agored. Mae gan y Cyngor gyfres gadarn o reolau gweithdrefnol sy'n llywodraethu'r prosesau y mae angen eu dilyn wrth ystyried prynu nwyddau, gwaith a gwasanaethau gan gyflenwyr allanol.

Rydym wrthi'n ailddatblygu a darparu adnoddau ar gyfer Blaengynllun Contractau a Chofrestr Contractau ar gyfer y Cyngor cyfan a fydd yn ein galluogi i oruchwylio'n contractau presennol a'r gallu i gynllunio'n well wrth adnewyddu contractau a gofynion newydd. Bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd ar wefan y Cyngor o fis Ebrill 2023.

Er bod ffocws yn aml ar y broses dendro a sicrhau pris cystadleuol, mae'n hanfodol bod contractau'n cael eu rheoli'n effeithiol i sicrhau bod gofynion ac ymrwymiadau yn cael eu cyflawni, a bod prisiau a chostau yn parhau i fod yn alinio â threfniadau cytundebau.

Lle y bo'n briodol, mae'r Cyngor yn ceisio cydweithredu â'r Sector Cyhoeddus ehangach yng Nghymru o ran defnyddio a darparu trefniadau contractio cydweithredol. Bydd y bartneriaeth gyda Chaerdydd yn caniatáu i Dorfaen chwarae rhan fwy gweithredol wrth gefnogi Rhwydwaith Caffael Cenedlaethol CLlLC i gyflwyno'r rhaglen hon.

Mae hwn yn fater heriol iawn ar y foment wrth i ni reoli effaith BREXIT a COVID a digwyddiadau arwyddocaol eraill sy'n effeithio ar ein cadwyni cyflenwi nawr ac yn y tymor canolig. Mae materion o ran prisiau ac argaeledd yn debygol o fod yn her dros gyfnod y strategaeth hon.

# Sicrhau gwerth am arian a rheoli'r galw

## Amcan (lle rydyn ni'n dymuno bod)

- Gall y Cyngor ddangos yn glir ei fod yn cyflawni gwerth am arian o'i wariant trydydd parti drwy bob cam o'r cylch bywyd caffael gan gynnwys cynllunio, dyfarnu a rheoli contractau.
- Mae'r Cyngor yn rhoi tystiolaeth fel mater o drefn ei fod yn ystyried ansawdd a chost oes gyfan mewn perthynas ag ystyriaethau ariannol ac amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ehangach, yn enwedig lleihau carbon a buddion cymunedol.

## Byddwn yn gwneud hyn drwy (sut y byddwn yn cyrraedd yno)

- Adolygu a herio'r hyn yr ydym yn gwario ein harian arnynt, a nodi cyfleoedd i sicrhau arbedion effeithlonrwydd
- Dangos gwerth am arian ac ystyried cost oes gyfan ein penderfyniadau
- Rheoli'r broses o gyflawni contractau ac effaith prisiau a phwysau'r farchnad

## Byddwn yn dangos bod hyn yn cael ei gyflawni drwy

- Adrodd ar y % o'r gwariant dan reolaeth.
- Adrodd ar gyfraniad caffael at dargedau arbedion trwy gaffael effeithiol
- Rheoli ein Blaengynllun Contractau a'i gyhoeddi bob chwarter

# Sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol a dulliau llywodraethu cadarn a thryloyw

Mae'r ffordd y mae'r Cyngor yn ymgymryd â'i weithgaredd caffael yn amodol ar ddeddfwriaeth y DU a LlC, a Chyfansoddiad y Cyngor ei hun sy'n cynnwys Rheolau Gweithdrefn Contractau.

Mae Rheoliadau Contractau Cyhoeddus y DU 2015 yn gosod gofynion cyfreithiol penodol o ran sut mae'r Cyngor yn dyfarnu contractau dros drothwyon ariannol diffiniedig. Bwriad y Rheoliadau hyn oedd creu marchnad UE agored, dryloyw a theg. Yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynnal adolygiad o ddeddfwriaeth caffael y bwriedir iddo ddod i rym yn 2023. Er bod yr union fanylion yn dal i gael eu datblygu, mae'n amlwg y bydd angen mwy o dryloywder o ran gweithgareddau caffael.

Bydd y ddeddfwriaeth gaffael newydd yng Nghymru yn cael ei chryfhau ymhellach drwy'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) y bwriedir iddi hefyd ddod i rym yn 2023. Er bod ffocws allweddol ar gryfhau'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer caffael mewn modd moesegol, bydd gofyniad i gyhoeddi Hysbysiadau Dyfarnu Contract a'n Blaengynllun Contractau.

Yn ogystal â'r gofynion deddfwriaethol, mae gweithgarwch caffael yn y Cyngor hefyd yn destun Cyfansoddiad y Cyngor, yn enwedig y Cynllun Dirprwyo a'r Rheolau Gweithdrefn Contract.

Mae gofynion y Cyfansoddiad yn eu lle i sicrhau llywodraethu tryloyw drwy ofynion gwneud penderfyniadau wedi'u diffinio'n glir, atebolrwydd i ac i sicrhau uniondeb a lleihau'r risg o dwyll.

Mae gan y Cyngor hefyd nifer o ofynion yn nhermau prosesau, systemau a dogfennaeth allweddol sydd ar waith i sicrhau rheolaethau cymesur ond digonol.

# Sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol a dulliau llywodraethu cadarn a thryloyw

## Amcan (lle rydyn ni'n dymuno bod)

- Mae holl staff caffael a swyddogion y Cyngor sy'n ymwneud â phrosesau caffael, yn gwbl ymwybodol o effaith y rheoliadau a'r rheolau gweithdrefnau contract sy'n berthnasol i weithgarwch caffael.
- Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol a bod trefniadau llywodraethu a rheoli risg y Cyngor yn gymesur ac yn cael eu dilyn.

## Byddwn yn gwneud hyn drwy (sut y byddwn yn cyrraedd yno)

- Adolygu a diweddaru dogfennau, prosesau, systemau a rheolaethau caffael yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol
- Darparu addysg a hyfforddiant i swyddogion y Cyngor sy'n ymwneud â'r broses gaffael
- Sicrhau bod gennym drefniadau digonol ar waith i reoli perfformiad a darparu goruchwyliaeth a sicrwydd i dîm arwain y Cyngor

## Byddwn yn dangos bod hyn yn cael ei gyflawni drwy

- Cyhoeddi Adroddiad Caffael blynyddol.

# Hyrwyddo atebion arloesol ac arfer gorau

Mae’r Cyngor yn cydnabod na fydd llawer o’r heriau yr ydym yn eu hwynebu yn cael sylw drwy gynnal y ‘sefyllfa bresennol’ ac mae angen herio ein hunain a’n marchnadoedd i ddarparu cynhyrchion a ffyrdd newydd o weithio a all ein helpu i:

- Leihau carbon
- Cynyddu’r Buddion Cymunedol a Gwerth Cymdeithasol sy’n cael eu darparu
- Cyflawni canlyniadau gwell
- Cynnal costau neu eu lleihau
- Gwella gwasanaethau

Mae hyn yn golygu bod angen i ni gynllunio’n well, herio’r hyn rydym wedi’i wneud erioed, ymgysylltu â marchnadoedd yn gynnar, ceisio arfer da o bob rhan o’r sector cyhoeddus, y trydydd sector a’r sector preifat a defnyddio’r broses gaffael fel modd o yrru’r farchnad i gynnig atebion sy’n mynd i’r afael â phroblemau, heriau a chanlyniadau penodol.

Er bod rhai yn ystyried bod caffael yn rhywbeth sy'n llesteirio arloesedd, y gwir amdani yw bod yna nifer o ffyrdd y gall y broses gaffael ei hun, os caiff ei dilyn yn gywir, ysgogi gwelliant. Ymhellach, gellir rhoi'r cyfle i gynigwyr gyflwyno ffyrdd arloesol newydd o weithio. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau’r buddion hyn, mae angen newid y ffafriaeth gyffredinol er mwyn trwsio datrysiadau yn seiliedig ar yr hyn sydd wedi mynd o'r blaen, a chynllunio gwell ac mwy amserol.

Mae’r sector cyhoeddus ledled Cymru hefyd yn cydnabod y gallai wneud mwy i rannu arfer da a datblygu atebion newydd, arloesol. I'r perwyl hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar gyllid i sefydlu Canolfan Ragoriaeth ar gyfer Caffael.

# Hyrwyddo atebion arloesol ac arfer gorau

## Amcan (lle rydyn ni’n dymuno bod)

- Ceisir cyfleoedd yn rheolaidd am atebion arloesol ar gyfer cynhyrchion, gwasanaethau neu waith sy'n ofynnol gan y Cyngor ac mae'r farchnad yn cael ei herio i gynnig atebion gwell.
- Defnyddir y broses gaffael i ysgogi ac annog arloesi, lle gall leihau costau a / neu wella effeithiolrwydd gwasanaethau'r Cyngor a chyflawni blaenoriaethau ehangach yn enwedig datgarboneiddio.

## Byddwn yn gwneud hyn drwy (sut y byddwn yn cyrraedd yno)

- Herio'r trefniadau caffael a'r modelau cyflawni presennol a cheisio enghreifftiau perthnasol o ddatblygiadau arloesol yn y farchnad ac arferion gorau.
- Annog dulliau caffael ar sail canlyniadau / problemau i ysgogi atebion creadigol ac arloesol ac ymgysylltu'n gynnar â marchnadoedd.
- Cydweithio â Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i ysgogi arloesi a mwy o werth a rhannu arfer da a datblygu mewnwelediad.

## Byddwn yn dangos bod hyn yn cael ei gyflawni drwy

- Adrodd a datblygu astudiaethau achos i dynnu sylw at arferion gorau.

# Ysgogiadau Allweddol

Mae'r Cyngor wedi nodi pum ysgogydd allweddol a fydd yn hanfodol i gyflawni'r Strategaeth hon:

## Pobl

- Parhau i fuddsoddi yn ein Pobl i sicrhau bod gan y Tîm Caffael y cyfuniad cywir o sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd.
- Sicrhau bod gan staff ar draws y Cyngor y sgiliau caffael, y wybodaeth a'r offer i weithio'n effeithiol ac yn annibynnol.

## Proses

- Symleiddio a safoni ein prosesau craidd a sicrhau bod ein rheolaethau yn sicrhau cydymffurfiaeth.
- Sicrhau bod templedi safonol yn eu lle ar gyfer dogfennau caffael a chontractio allweddol a bod y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

## Technoleg

- Buddsoddi mewn technoleg ac e-gaffael fel sylfaen i'n prosesau craidd a'u symleiddio, digido data a gwella integreiddio ar draws systemau.
- Defnyddio PowerBI i wella gallu'r Gorfforaeth i weld eu perfformiad o ran gwario a chaffael.
- Gwella ein prosesau Prynu i Dalu (P2P) i yrru arbedion effeithlonrwydd.

## Gwybodaeth

- Darparu data gwariant amserol cywir i staff er mwyn llywio penderfyniadau caffael a nodi cyfleoedd i greu arbedion.
- Cyhoeddi Blaengynllun Contractau a Chofrestr Contractau yn chwarterol i wella gwelededd a chynllunio.
- Paratoi adroddiad yn flynyddol ar berfformiad caffael.
- Cefnogi Cyfarwyddiaethau i optimeiddio eu gwariant wrth gyflawni eu hamcanion strategol.

## Diwylliant

- Datblygu diwylliant sy'n arloesi ac sy'n herio dulliau cyflenwi traddodiadol i wella'r hyn a wnawn ac ysgogi arbedion.
- Sicrhau bod staff yn deall ac yn gwerthfawrogi rheolau a pholisïau'r Cyngor.
- Sicrhau bod ymgysylltu cadarnhaol â staff ar draws y Cyngor i gefnogi ac annog atebion arloesol o fewn rheolau cytûn y Cyngor a deddfwriaeth ehangach.
- Cydweithio i sicrhau atebion gwell a rhannu'r hyn a ddysgir

# Rheoli Caffael

Ym mis Awst 2022 ymrwymodd y Cyngor i drefniant ar y cyd gyda Chyngor Caerdydd i gefnogi'r gwaith o reoli a chyflawni gweithgarwch caffael ar draws y Cyngor. Mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am:

- Ddatblygu a chyflawni strategaeth a pholisi caffael
- Darparu dadansoddiadau gwariant a throsolwg a sicrwydd perfformiad a
- Cefnogi Cyfarwyddiaethau i gyflawni'r Blaengynllun Contractau

Mae'r cyfrifoldeb am nodi gofynion a rheoli contractau yn parhau gyda'r gwasanaeth perthnasol.

Yn ogystal â rheoli caffael ar gyfer Cyngor Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen mae'r gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am reoli swyddogaeth gaffael Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Bro Morgannwg a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Bydd y dull hwn, yn ogystal â gweithio ar y cyd yn rhanbarthol a chenedlaethol yn barhaus gyda chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, dan oruchwyliaeth rhwydwaith Caffael Cenedlaethol Cymru CLlLC, yn parhau er budd Torfaen.

## Monitro, Adolygu ac Adrodd

Bydd Cynllun Cyflawni manwl yn egluro’r camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd i gyflawni'r Strategaeth Caffael Cymdeithasol Gyfrifol hon.

Bydd y Cynllun Cyflawni hwn yn cael ei ddiweddaru’n flynyddol ac yn cael ei ddefnyddio i reoli ac adrodd ar gynnydd yn flynyddol i Dîm Arweinwyr Strategol y Cyngor. Bydd y Cyngor yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol Caffael ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Bydd yr adroddiad yn cynnwys:

- Adroddiad ar gynnydd gweithredu’r Cynllun Cyflawni’r Strategaeth Caffael Cymdeithasol Gyfrifol.
- Crynodeb o'r contractau a ddyfarnwyd uwchben Trothwyon Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.
- Manylion adolygiad i'r graddau y cyfrannodd contractau'r Cyngor at wella lles yn Nhorfaen.
- Datganiad o'r modd y mae'r Cyngor yn bwriadu gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ymhellach.
- Crynodeb o'r gwaith caffael y mae'r Cyngor yn disgwyl ei wneud yn ystod y ddwy flynedd ariannol nesaf.